

FSAW 19/10/02

I'w drafod

Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru (WFAC) ar Faterion a Godwyd yng Nghyfarfod Agored Diwethaf y Bwrdd

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r adroddiad atodedig yn rhoi crynodeb byr o faterion a gyflwynwyd gan y Cadeirydd yng nghyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ym mis Medi 2019 a'r prif faterion a drafodwyd mewn perthynas â chylch gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru.
2. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i:
 - **nodi** trafodaethau'r Bwrdd
 - **gwahodd** y Cadeirydd i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach.

Cysylltwch drwy: Lucy Edwards

Lucy.Edwards@food.gov.uk

FSAW 19/10/02

I'w drafod

Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru – Hydref 2019

1. Cyfarfodydd y Bwrdd

1.1 Mae'r Bwrdd wedi cwrdd unwaith ers cyfarfod agored diwethaf Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru, ar 18 Medi.

1.2 Yn y cyfarfod ar 18 Medi, aeth y Bwrdd ati i ystyried y materion canlynol:

- **Diweddariad ar waith yr ASB ar Orsensitifrwydd i Fwyd a Gweithredu Adolygiad Labelu Alergenau'r Llywodraeth:** Roedd y papur yn rhoi diweddariad ar weithgarwch cyfredol a gweithgarwch i ddod ar orsensitifrwydd i fwyd a gweithredu rheolau newydd ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol yn dilyn Adolygiad Labelu Alergenau'r Llywodraeth a thrafodaeth yng nghyfarfod y Bwrdd ar 19 Mehefin 2019.
- **Model Cost Salwch, Parodrwydd i Dalu ac Ansawdd – Blwyddyn Fwyd a Addaswyd fel Mesurau Effaith ar gyfer Bwyd a Salwch a Gludir gan Fwyd:** Roedd y papur yn disgrifio'r rhaglen helaeth o waith sydd wedi'i gynnal hyd yma gan economegwyr yr ASB ac arbenigwyr allanol i wella amcangyfrifon baich salwch a gludir gan fwyd ac i gynhyrchu amcangyfrifon tebyg ar faich gorsensitifrwydd i fwyd am y tro cyntaf.
- **Labordai Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol y Deyrnas Unedig (DU) – Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol:** Roedd y papur yn nodi canlyniadau adolygiad o gapasiti, gallu a llywodraethu system labordy bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol y DU. Roedd hefyd yn nodi gweledigaeth ar gyfer sut y gallai system labordy bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol y DU edrych yn y dyfodol ac amlygu rhai o'r camau allweddol nesaf sy'n ofynnol i ddatblygu system well.
- **Dull yr ASB o ystyried Ansicrwydd a Risg:** Roedd y papur yn disgrifio egwyddorion ac arferion dadansoddi risg sy'n sail i rôl yr ASB o ran darparu cyngor rheoli risg seiliedig ar dystiolaeth i Weinidogion sy'n gwneud penderfyniadau rheoli risg. Roedd hefyd yn nodi disgwyliadau ynghylch y ffordd y dylid mynegi ansicrwydd wrth asesu risg a thystiolaeth arall i gefnogi rheoli risg yn ogystal â mesurau rheoli risg wrth benderfynu defnyddio'r egwyddor ragofalus wrth lunio cyngor ar reoli risg.
- **Diweddariad ar Raglen Lleihau Campylobacter:** Roedd y papur hwn yn rhoi diweddariad ar weithgarwch yr ASB i leihau lefelau Campylobacter. Roedd hefyd yn nodi'r gyfres o ymyriadau a dreialwyd ac a weithredwyd fel rhan o'r Rhaglen Lleihau Campylobacter ac yn ceisio cytundeb i gynnal gweithgarwch barhaus i leihau lefelau Campylobacter.

- **Diweddariad ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd/Dull yr ASB o Orfodi a Chosbau Rheoleiddio:** Roedd y papur yn diweddarar ar weithgarwch gwyddoniaeth yr ASB o ran ymwrthedd gwrthficrobaidd a'r gadwyn fwyd.

1.3 Bydd cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd mis Medi, a fydd yn darparu rhagor o gyd-destun a chasgliadau'r Bwrdd ar y papurau uchod, yn cael eu rhoi ar wefan yr ASB yn fuan drwy: <https://www.food.gov.uk/about-us/our-board#board-meetings>

1.4 Cynhaliodd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru gyfarfod busnes ar 12 Medi i gytuno ar ei gyfraniad i drafodaethau'r Bwrdd a amlinellwyd uchod.

2. Materion eraill

2.1 Rwy'n falch bod llawer o aelodau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru wedi gallu cefnogi rhaglen ymgysylltu yr ASB yng Nghymru dros yr haf gan gynnwys bod yn bresennol yn sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf a'r Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst. Roedd y ddau ddigwyddiad yn cynnig cyfleoedd gwyb i ymgysylltu â defnyddwyr.

2.2 Ar 17 Medi, cefais drafodaethau pellach gyda Chadeirydd Bwrdd yr ASB ac Aelod Bwrdd Gogledd Iwerddon/Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Gogledd Iwerddon mewn perthynas â ffyrdd newydd y Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd o weithio. Rydym ni'n parhau i gytuno bod ail-strwythuro'r Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd wedi bod yn fuddiol ac mae'r drefn newydd yn darparu gwell mewnbwn yn benodol i'r wlad honno i gamau datblygu polisi cynnar. Bydd y ffyrdd newydd o weithredu yn parhau i gael eu hadolygu a'u gwerthuso. Gwnaethom drafod, fel rhan o fy nghynllun gwaith blynyddol, gamau y bydd angen eu cymryd mewn perthynas â phenodi/ailbenodi aelodau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru o fis Mehefin 2020. Fe drafodom ni hefyd feysydd posibl i'w trafod yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol gan gynnwys mapio'r system fwyd yng Nghymru.

Ruth Hussey

Aelod Bwrdd yr ASB dros Gymru a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru